Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar ddarpariaeth addysg bellach

## Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion

**Campws y Graig**
**Heol Sandy**
**Llanelli**
**SA15 4DN**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Choleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion

Daeth Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion yn goleg integredig ym mis Awst 2017 a chyfeirir ato yn awr fel un coleg, gyda dau frand a saith campws ar draws Sir Gaerfyrddin a Cheredigion. Mae'r campysau sy'n cael eu defnyddio gan Goleg Ceredigion yn Aberystwyth ac Aberteifi. Mae gan Goleg Sir Gâr bum campws yn Rhydaman, Gelli Aur, Ffynnon Job, Pibwrlwyd a champws y Graig. Mae'r coleg yn cyflwyno amrywiaeth eang o gyrsiau galwedigaethol gyda chyfleoedd dilyniant ar gael ar y rhan fwyaf o gyrsiau i'r lefel nesaf, prentisiaethau ac addysg uwch.

- Economi ymwelwyr a gwyddor anifeiliaid
- Celf a dylunio
- Adeiladu ac amaethyddiaeth
- Iechyd, gofal plant, mynediad a sylfaen
- Cyfrifiadura a thechnolegau peirianneg
- Cyrsiau Safon Uwch a mynediad at addysg uwch
- Y diwydiannau creadigol, chwaraeon a gwasanaethau cymunedol
- Creadigrwydd a medrau

Mae'r coleg yn rhan o Grŵp Prifysgol y Drindod Dewi Sant. Mae Coleg Sir Gâr wedi bod yn is-gwmni a berchnogir yn gyfan gwbl gan y Grŵp er 2013, ac mae Coleg Ceredigion wedi bod yn is-gwmni a berchnogir yn gyfan gwbl gan Goleg Sir Gâr er 2017.

Penodwyd y pennaeth presennol ym mis Medi 2018, ac ers hynny, mae'r coleg wedi diwygio'i strwythur staff a rheolwyr. Ar hyn o bryd, mae gan y coleg 5,505 o ddysgwyr addysg bellach, y mae 2,795 ohonynt yn ddysgwyr amser llawn, a 2,710 yn ddysgwyr rhan-amser. O'r 2,710 o ddysgwyr rhan-amser, mae 895 o ddysgwyr yn mynychu dosbarthiadau ar y campws. O'r dysgwyr amser llawn, mae 80% yn ddysgwyr yn Sir Gâr, a 20% yng Ngheredigion. Mae 88% o'r dysgwyr rhan-amser yn Sir Gâr a'r 12% sy'n weddill yng Ngheredigion. Mae'r coleg yn cyflogi tua 850 aelod o staff.

O ran y Gymraeg, mae 23% o ddysgwyr amser llawn yn nodi bod ganddynt fedrau Cymraeg rhugl, a dywed 27% o ddysgwyr fod ganddynt rywfaint o fedrau Cymraeg ond nad ydynt yn rhugl.

Mae tua 263,000 o bobl yn byw yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion (190,000 a 73,000 yn y drefn honno). O'r boblogaeth bresennol, mae tua 44,000 (17%) o dan 16 oed, a thua 64,000 (24%) yn 65 oed ac yn hŷn. Tyfodd poblogaeth Sir Gaerfyrddin 6% rhwng cyfrifiadau 2001 a 2011, tra tyfodd poblogaeth Ceredigion 1% yn unig.

Ym mis Rhagfyr 2021, y gyfradd gyflogaeth yn Sir Gaerfyrddin oedd 69.1%, sy'n is na ffigur Cymru, sef 73.1%. Y gyfradd gyflogaeth yng Ngheredigion oedd 74.3%, sy'n uwch. Yn 2021, yr enillion wythnosol gros (canolrif) yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion oedd £547 a £549 yn y drefn honno. Maent yn safle 14 ac 15 ymhlith y 22 awdurdod lleol. Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) 2019 yn dangos mai 7% yn unig o ardaloedd yng Ngheredigion a 27% o ardaloedd yn Sir Gaerfyrddin sydd o fewn y 30% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae bron pob un o drigolion Sir Gaerfyrddin a Cheredigion o gefndir ethnig gwyn. Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth 2021 yn dangos mai canran y bobl sy'n dair oed ac yn hŷn sy'n siarad Cymraeg yn y ddau awdurdod lleol yw 55%, sef cynnydd o ddau bwynt canran mewn 10 mlynedd.

Mae canran yr oedolion yng Ngheredigion sy'n gymwys i lefel 2 neu'n uwch (90%), i lefel 3 neu'n uwch (76%) ac i lefel 4 neu'n uwch (54%) i gyd yn uwch na chyfartaleddau Cymru. Mae canran yr oedolion yn Sir Gaerfyrddin sy'n gymwys i lefel 2 neu'n uwch (82%) ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, ond mae'r rhai sy'n gymwys i lefel 3 neu'n uwch (62%) ac i lefel 4 neu'n uwch (38%) islaw cyfartaleddau Cymru.

## Crynodeb

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu cefnogi'n dda yn ystod eu cyfnod yn y coleg. Mae'r coleg wedi ymgorffori ethos cadarnhaol yn llwyddiannus wedi'i seilio ar werthoedd parch, undod a phroffesiynoldeb. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn siarad yn gadarnhaol am eu profiadau yn y coleg ac yn falch o fynd yn ôl i wersi wyneb yn wyneb yn bennaf. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo bod eu lefelau hyder wedi cael eu heffeithio trwy'r pandemig a'u bod yn cael cymorth ychwanegol pan fydd angen. Mae'r tarfu ar addysgu a dysgu mewn ysgolion a cholegau dros y pandemig yn amlwg yng ngwaith dysgwyr pan fyddant yn ymgymryd â thasgau rhifedd a mathemateg ehangach. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu medrau ymarferol cymwys a llawer ohonynt yn cysylltu theori ac arfer yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r dysgwyr hyn yn gwneud cynnydd priodol o leiaf i gwblhau eu cyrsiau. Mae gan y coleg systemau ar waith i gynorthwyo dysgwyr yn eu dealltwriaeth o sut i gadw'n ddiogel a diogelu. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddysgwyr yn dangos dealltwriaeth glir o eithafiaeth a radicaleiddio.

Mae bron pob un o'r athrawon yn adnabod eu dysgwyr yn dda ac yn meithrin perthnasoedd sy'n annog ac yn cynorthwyo dysgwyr i wneud cynnydd. Caiff gwersi eu cynllunio gydag ystyriaeth. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn datblygu medrau digidol yn fedrus yn eu pynciau galwedigaethol neu academaidd. Mae dysgwyr yn arddangos lefelau uchel o gymhwysedd gan ddefnyddio platfformau digidol i storio, cofnodi, trefnu ac olrhain eu dysgu eu hunain. Lle bo'n briodol, mae athrawon yn cefnogi medrau Cymraeg dysgwyr trwy sgwrsio â nhw yn ystod dosbarthiadau. Yn aml, mae'r athrawon hyn yn newid yn ddi-dor rhwng y Saesneg a'r Gymraeg, i dargedu gallu dysgwyr yn y Gymraeg.

Mae'r coleg yn cyflwyno ystod eang o gyrsiau ac mae'n ymatebol i anghenion cyflogwyr a rhanddeiliaid eraill. Maent wedi datblygu partneriaethau cryf ag ysgolion lleol ar gyfer darpariaeth 14-16. Ar draws bron pob un o'r cyrsiau, mae dysgwyr yn elwa ar lwybrau dilyniant clir i'r lefel nesaf neu i ddysgu yn y gwaith, addysg uwch neu gyflogaeth.

Mae'r pennaeth wedi gosod gweledigaeth sy'n llywio blaenoriaethau strategol y coleg yn dda. Mae bron pob un o'r uwch reolwyr a'r rheolwyr canol yn dangos dealltwriaeth glir ynglŷn â sut maent yn cefnogi nod y coleg i gyflwyno ''profiadau dysgu ysbrydoledig''. Yn ystod y pandemig, un o gryfderau penodol y coleg oedd ei ymrwymiad i wella medrau staff addysgu a staff cymorth i'w galluogi i gynorthwyo dysgwyr yn effeithiol i ddatblygu medrau digidol cryf ac aros ar eu cyrsiau.

Mae uwch dîm rheoli'r coleg wedi bod yn effeithiol yn gwella'r profiadau dysgu a'r deilliannau mewn campysau sy'n tanberfformio. Ymatebont yn gyflym a rhoi gweithdrefnau gwella ansawdd trylwyr ar waith. Mae gan y coleg systemau sicrhau ansawdd cynhwysfawr ac mae'n casglu ystod eang o ddata, er bod rheolwyr yn colli cyfleoedd i ddadansoddi data i werthuso effaith camau gweithredu a mentrau yn llawn.

## Argymhellion

A1 Gwneud defnydd gwell o’r data helaeth sydd gan y coleg i fireinio gwerthuso effaith y ddarpariaeth a’r mentrau ymhellach

A2 Cryfhau strategaethau i wella dealltwriaeth dysgwyr o radicaleiddio ac eithafiaeth

A3 Sicrhau bod medrau rhifedd a medrau mathemategol ehangach dysgwyr yn cael eu datblygu’n llawn i fynd i’r afael â’r bylchau yn eu medrau

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi astudiaethau achos ar ei waith yn ymwneud â dysgu proffesiynol a system integredig y coleg ar gyfer gosod targedau ac olrhain cynnydd dysgwyr, i’w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Wrth iddynt agosáu at ddiwedd y flwyddyn academaidd, mae llawer o ddysgwyr yn y coleg yn paratoi’n ddyfal ar gyfer arholiadau allanol neu’n cwblhau elfennau o’u gwaith ar gyfer asesiad yn ofalus. Oherwydd y tarfu ar ddysgu ac asesu yn gysylltiedig â’r pandemig mewn ysgolion a cholegau er mis Mawrth 2020, mae nifer o ddysgwyr y coleg yn awr yn sefyll arholiadau ffurfiol am y tro cyntaf.

Mewn dosbarthiadau, mae llawer o ddysgwyr yn galw dysgu diweddar i gof yn effeithiol, ac mae mwyafrif ohonynt yn cymhwyso dysgu blaenorol i gyd-destunau newydd yn dda. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn gyfforddus yn ymgymryd â thrafodaethau grŵp ac mae llawer ohonynt yn ymateb yn dda i gwestiynau llafar am eu gwaith. Mae ychydig ohonynt yn gofyn cwestiynau perthnasol i’w hathrawon ac yn adnabod camgymeriadau yn hyderus neu’n procio athrawon am esboniadau pellach.

Mae llawer o ddysgwyr yn rhoi cymorth ac anogaeth werthfawr i’w gilydd, ac mae lleiafrif ohonynt yn cywiro camdybiaethau ei gilydd yn fuddiol â gofal ac ystyriaeth briodol. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn gweithio gyda’i gilydd yn effeithiol ac mae lleiafrif ohonynt yn hapus i ddangos eu galluoedd ac archwilio eu meddwl o flaen eu cyfoedion a’u hathrawon. Mae dysgwyr celf yn trafod gwaith ei gilydd yn feirniadol yn rheolaidd, gan roi adborth craff mewn modd sensitif i ddatblygu eu medrau ymhellach.

Ar draws y coleg, mae llawer o ddysgwyr yn ysgrifennu’n gymwys o gymharu â lefel eu cwrs. Maent yn mabwysiadu tôn addas ar gyfer gwahanol gyd-destunau, er enghraifft wrth ysgrifennu cynlluniau busnes ffurfiol mewn gwersi amaethyddiaeth lefel 3 neu fyfyrio ar eu hysbrydoliaeth a’u dulliau dylunio mewn dylunio graffeg Safon Uwch. Gall mwyafrif y dysgwyr Safon Uwch roi atebion priodol o fanwl i gwestiynau, gan esbonio eu rhesymau yn glir. Mae mwyafrif dysgwyr lefel 3 yn llunio nodiadau gwersi gwerthfawr y maent yn prosesu’r trafodaethau sy’n digwydd ac yn cyfosod pwyntiau allweddol trwyddynt yn fedrus. Fodd bynnag, mae nodiadau gwersi ychydig o ddysgwyr UG a Safon Uwch yn anhrefnus, ac mae hyn yn rhwystro eu gallu i baratoi’n effeithiol ar gyfer asesiadau ffurfiol.

Mae llawer o ddysgwyr yn adolygu a gwella eu gwaith yn rheolaidd wrth ymateb i adborth llafar neu ysgrifenedig neu pan fyddant yn cael gweld atebion enghreifftiol neu gynlluniau marcio. Er enghraifft, mae dysgwyr bioleg UG yn marcio eu gwaith eu hunain yn rheolaidd, gan nodi ac adolygu’n ofalus agweddau sy’n brin o esboniad cyflawn. Mewn dosbarthiadau ymarferol, mae dysgwyr yn elwa ar adborth sy’n eu galluogi i gynhyrchu gwaith o safon uwch. Ar draws y coleg, mae llawer o ddysgwyr yn cymryd perchnogaeth dros adolygu eu cynnydd a gosod targedau defnyddiol iddyn nhw eu hunain. Mae hyn yn helpu dysgwyr i wella agweddau penodol ar eu gwybodaeth bynciol a’u medrau ac yn cefnogi eu datblygiad personol. Er enghraifft, mae dysgwyr teithio a thwristiaeth lefel 1 yn myfyrio ar adborth ysgrifenedig gan eu hathrawon i osod targedau pwrpasol iddyn nhw eu hunain gan ddefnyddio system integredig y coleg ar gyfer gosod targedau ac olrhain cynnydd dysgwyr.

Mewn dosbarthiadau, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos medrau ymarferol cymwys, ac mae llawer ohonynt yn cysylltu theori ag arfer yn llwyddiannus. Mae dysgwyr gofal anifeiliaid yn datblygu dealltwriaeth dda o seicoleg ceffylau, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ei chymhwyso'n briodol i wella'u medrau ymarferol. Mae dysgwyr y celfyddydau perfformiadol yn myfyrio'n dda ar agweddau penodol ar ddrama i lywio datblygiad eu cynhyrchiad o Oleanna. Lle bo'n berthnasol, mae llawer o ddysgwyr yn arddangos crefft fedrus, er enghraifft wrth greu cabinetau mewn sesiynau creu dodrefn a gwasanaeth arddangos *gueridon* wrth baratoi crempogau *suzettes* fflamboeth fel rhan o ddosbarthiadau arlwyo lefel 2. Mae dysgwyr celf a dylunio lefel 3 yn cynhyrchu gwaith trawiadol o grochenwaith, print leino a ffasiynau tecstiliau.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n dilyn cyrsiau medrau byw yn annibynnol yn datblygu medrau priodol a fydd yn eu helpu yn eu bywydau yn y dyfodol. Er enghraifft, maent yn dysgu sut i goginio prydau bwyd, trin arian a rhyngweithio'n ddiogel o fewn eu cymunedau. Fel rhan o ddarpariaeth 'Camu Ymlaen' y coleg, mae dysgwyr ag anghenion mwy cymhleth yn ymgysylltu'n gadarnhaol mewn gwersi. Mae mwyafrif y dysgwyr hyn yn gwneud cynnydd cryf mewn datblygu eu hannibyniaeth, eu medrau cyfathrebu a dysgu, sy'n eu galluogi i symud ymlaen yn llwyddiannus i astudio ymhellach neu i gyflogaeth.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn arddangos medrau digidol cryf sy'n briodol i lefel eu cwrs. Mae dysgwyr ar draws y coleg yn trefnu eu gwaith yn effeithiol gan ddefnyddio strwythurau ffeil electronig addas. Mae hyn yn eu helpu i gyfeirio at eu gwaith blaenorol, lanlwytho gwaith newydd a mynd at adborth gan eu hathrawon. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn defnyddio ystod eang o ddulliau digidol i gyfathrebu'n effeithiol â'u hathrawon a'u cyfoedion. Mae dysgwyr y cyfryngau creadigol lefel 3 yn creu gwefannau gweithredol a gweledol gyfoethog i arddangos eu gwaith.

Mae effeithiau gwaddol y tarfu ar addysgu a dysgu mewn ysgolion a cholegau yn ystod y pandemig yn amlwg yng ngalluoedd dysgwyr i ymgymryd â gwaith sy'n cynnwys rhifedd. Ar draws y coleg, mae medrau rhifedd a medrau mathemategol ehangach dysgwyr yn llai datblygedig na'r hyn fyddai'n ddisgwyliedig gan garfanau tebyg yn y coleg cyn y pandemig. At ei gilydd, mae ymgysylltiad dysgwyr â gwersi mathemateg TGAU a gwersi paratoadol mathemateg TGAU ar-lein y coleg yn wannach nag ydyw mewn meysydd eraill.

Mae llawer o ddysgwyr yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg. Maent yn parchu'r iaith a'i diwylliant ac yn ymgysylltu'n dda â gweithgareddau a ddatblygwyd gan y coleg i wella eu medrau Cymraeg. Lle bo'n bosibl, mae'r siaradwyr Cymraeg mwyaf rhugl yn sgwrsio'n naturiol â'u hathrawon a'u cyfoedion mewn sgyrsiau un i un gan ddefnyddio'r Gymraeg; mae hyn yn nodwedd hynod nodedig ar gampws Gelli Aur y coleg. Mae dysgwyr Cymraeg sy'n astudio cyrsiau galwedigaethol yn datblygu eu medrau'n briodol o dda ac yn gwerthfawrogi gwerth datblygu eu gallu yn y Gymraeg yng nghyd-destun eu meysydd astudio.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Ar draws holl gampysau'r coleg, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo'n ddiogel a saff. Maent yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn deg ac yn teimlo'n rhydd oddi wrth gam-drin ac aflonyddu.

Mae nifer y dysgwyr sy'n ceisio cymorth ar gyfer eu lles emosiynol a'u hiechyd meddwl wedi cynyddu o ganlyniad i bandemig COVID-19. Bob blwyddyn, mae cannoedd o ddysgwyr yn mynd ati i ymgysylltu â gwasanaethau cymorth y coleg. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr hyn yn teimlo bod y cymorth a gânt yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w lles, gwydnwch a'u gallu i wneud cynnydd yn eu dysgu. Er enghraifft, mae dysgwyr sy'n cael cymorth mentora bron mor debygol o gwblhau eu cwrs â'r holl ddysgwyr. Er gwaethaf yr adborth cadarnhaol gan y rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaeth, ychydig iawn o ddysgwyr sy'n dweud nad ydynt yn gwybod o ble i gael cymorth os oes ei angen arnynt.

Mae arweinwyr yn ymgymryd ag amrywiaeth o rolau arwain yn y coleg â brwdfrydedd. Er enghraifft, mae gan ryw 40 o ddysgwyr, gan gynnwys y rhai ag ADY, rôl llysgennad ar gyfer y coleg sy'n cefnogi eu datblygiad personol ac yn darparu modelau rôl ar gyfer dysgwyr iau. Maent yn ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau fel cyfarfod a chyfarch mewn digwyddiadau, ymweld ag ysgolion lleol i hyrwyddo'r coleg, hyrwyddo'r Gymraeg ar gampysau, ac arwain gweithgareddau mewn digwyddiad medrau blynyddol ym Mharc y Scarlets.

Trwy'r undeb myfyrwyr rhagweithiol, caiff dysgwyr eu cynrychioli'n effeithiol ar grwpiau arwain uwch staff ac fe gânt ddylanwad cadarnhaol ar bolisi, strategaeth ac arferion. Er enghraifft, mae'r undeb myfyrwyr yn gweithio gyda'r coleg ar hyn o bryd i sicrhau ei fod yn cynnig profiad cynhwysol i ddysgwyr, ni waeth beth yw eu rhywedd. Mae dysgwyr wedi rhoi cyflwyniadau i arweinwyr y coleg am eu profiad a'u safbwyntiau presennol ynglŷn â ble y gellid gwneud gwelliannau mewn meysydd fel defnydd o ragenwau gan staff a sut caiff rhywedd ei gofnodi ar ffurflenni a systemau.

Mae llawer o ddysgwyr yn teimlo bod y coleg yn gwrando ar eu safbwyntiau ac yn rhoi ystyriaeth dda iddynt. O ganlyniad i adborth gan ddysgwyr, mae mwy o feinciau picnic ar gael o gwmpas campysau, a chyflwynwyd 'gerddi lles' fel cynllun peilot ar ddau gampws. Fodd bynnag, mae ychydig o ddysgwyr nad ydynt yn teimlo bod y coleg yn gwrando ar eu pryderon a'u safbwyntiau, ac yn gweithredu yn unol â nhw.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn falch o fod yn aelodau o'r coleg ac yn siarad yn gadarnhaol am eu profiadau. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ddiolchgar i fod yn ôl mewn gwersi wyneb yn wyneb yn bennaf ac yn datgan eu bod wedi'i chael yn anos cynnal ymdrech ac ymgysylltiad mewn gwersi ar-lein. Fodd bynnag, mae'n well gan ychydig iawn o ddysgwyr ddysgu ar-lein na gwersi yn yr ystafell ddosbarth.

Bydd nifer sylweddol o ddysgwyr yn sefyll arholiadau am y tro cyntaf, ac maent yn amlwg yn nerfus wrth feddwl am hyn. Maent yn teimlo eu bod wedi elwa ar wersi a strategaethau ychwanegol y mae athrawon wedi eu cynnig eleni, yn enwedig o ran hunan-barch, medrau adolygu a pharatoi ar gyfer asesiadau.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn nodi bod eu lefelau hyder mewn dysgu wedi cael eu heffeithio ar ôl y pandemig a bod nifer sylweddol o'r rhain wedi gofyn am gymorth ychwanegol. Mae dysgwyr yn deall yn glir beth yw gwerth cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau i ddatblygu eu medrau cyflogadwyedd ar draws ystod o ddarpariaeth alwedigaethol. Er enghraifft, mae dysgwyr lletygarwch ac arlwyo yn datblygu hunanhyder mewn sesiynau ymarferol pan fyddant yn cwblhau arddangosiadau i'w cyfoedion, ac yn cymryd eu tro i weithredu fel rheolwr tŷ bwyta.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwrtais, yn ystyriol ac yn barchus ac yn arddangos perthnasoedd proffesiynol da gydag athrawon ac yn gefnogol i'w gilydd. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cytuno eu bod yn cael cymorth personol da gan eu hathrawon. Mae llawer o ddysgwyr wedi'u cymell ac yn ymgysylltu trwy gydol gwersi, a mwyafrif ohonynt yn ymateb yn dda i gwestiynau. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn awyddus i symud ymlaen i gyflogaeth neu ddysgu ar lefel uwch ac mae gan lawer ohonynt lwybrau cyrchfan clir y maent yn eu dilyn. Mae bron pob un o'r dysgwyr sy'n dilyn Camu Ymlaen a rhaglenni medrau byw yn annibynnol yn dangos ymddygiad cyson dda yn y coleg, ac yn dysgu medrau bywyd a medrau cyflogaeth perthnasol.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mwynhau eu cyrsiau ac yn dangos diddordeb ac ymgysylltiad yn eu dysgu, ac mae llawer o ddysgwyr yn dangos y gallu i ysgogi eu hunain. Er enghraifft, mae dysgwyr mewn celf a dylunio yn aml yn dangos moeseg waith ganmoladwy. Defnyddiant iaith mewn modd eithriadol o dda i fynegi barn ac ymgysylltu â thrafodaethau ystyrlon yn yr ystafell ddosbarth.

Mae llawer o ddysgwyr yn ymgymryd yn frwdfrydig ag ystod o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau entrepreneuriaeth a menter, yn enwedig trwy raglen 'Byddwch yn Uchelgeisiol'. Mae'r rhaglen hon yn grymuso dysgwyr i archwilio, paratoi a chysylltu eu dyheadau addysg, gyrfa a'u profiadau allgyrsiol i symud yn llwyddiannus i yrfa ystyrlon. Mae cannoedd o ddysgwyr wedi cymryd rhan mewn cystadlaethau eleni, gan gynnwys cystadlaethau medrau cenedlaethol a rhyngwladol.

### Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r coleg yn darparu ystod eang o gyrsiau sy'n diwallu anghenion cymunedau lleol ac yn mynd i'r afael â blaenoriaethau rhanbarthol yn dda. Maent yn cydnabod anghenion dysgwyr, yn ystyriol o'r tarfu a achoswyd gan y pandemig ac yn cynllunio darpariaeth yn briodol. Er enghraifft, mae'r coleg wedi cyflwyno darpariaeth medrau a sesiynau cymorth ychwanegol sy'n galluogi dysgwyr i barhau i ymgysylltu â'u cyrsiau.

Mae'r coleg yn ymatebol i anghenion yr holl ddysgwyr, cyflogwyr a rhanddeiliaid eraill ac mae ganddo bartneriaethau hynod gryf ag ysgolion lleol ar gyfer darpariaeth 14-16. Mae'r rhaglenni medrau byw yn annibynnol a 'Dechrau Newydd' yn canolbwyntio ar fedrau ar gyfer cyflogadwyedd a gwaith galwedigaethol er mwyn i ddysgwyr symud ymlaen i'r brif ffrwd. Un o'r cryfderau penodol yw'r llwybrau dilyniant cynlluniedig sy'n galluogi dysgwyr i symud ymlaen i raglenni prentisiaeth neu gyrsiau lefel uwch mewn llawer o feysydd dysgu.

Mae'r coleg yn parhau i ddatblygu ei ddarpariaeth alwedigaethol ddwyieithog yn unol â meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn genedlaethol, gan gynnwys cyrsiau cyfrwng Cymraeg mewn amaethyddiaeth, gofal plant, ac iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae cydweithio â chyflogwyr ar draws llawer o feysydd dysgu yn cysylltu'n dda â chyfleoedd yn gysylltiedig â gwaith. Mewn ychydig o gyrsiau galwedigaethol, mae athrawon wedi gweithio'n galed i sicrhau bod dysgwyr yn cael y cyfleoedd gorau posibl. Er enghraifft, mewn adeiladu a gofal anifeiliaid, mae dysgwyr yn cwblhau rhaglenni profiad gwaith cynlluniedig i ennill mewnwelediad i'w maes dysgu ac yn eu cynorthwyo i ddatblygu'r wybodaeth, y medrau a'r ymddygiadau i wneud dewisiadau gwybodus o ran dilyniant.

Mae'r coleg yn cyfoethogi'r cwricwlwm trwy annog dysgwyr i gymryd rhan mewn ymweliadau addysgol lleol a rhyngwladol. Trwy ymgymryd â chynlluniau cyfnewid i ddysgwyr, mae dysgwyr yn datblygu medrau diwylliannol a chyflogadwyedd. Mae academïau'r coleg yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ymestyn eu rhaglenni. Er enghraifft, mae academi TG ag ynddi offer da, a ddatblygwyd yn ddiweddar, yn cynorthwyo dysgwyr o lefel sylfaen i lefel 3 i gystadlu mewn cystadlaethau e-chwaraeon cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae bron pob un o'r athrawon yn adnabod eu dysgwyr yn dda ac yn datblygu perthnasoedd gweithio da â nhw. Maent yn cynllunio gwersi a chymorth gan ystyried anghenion bugeiliol a galluoedd addysgol dysgwyr, a'r effaith y gallai'r pandemig fod wedi'i chael arnynt. Mae llawer o athrawon yn creu adnoddau o ansawdd uchel, y maent yn eu rhannu â dysgwyr trwy ddefnyddio platfformau digidol yn effeithiol. Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon yn defnyddio proffiliau dysgwyr yn effeithiol iawn i lywio eu cynllunio, addysgu ac asesu.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cyflwyno sesiynau sy'n ennyn diddordeb dysgwyr yn dda ac yn annog rhyngweithio mewn dysgu. Mewn cyrsiau galwedigaethol, mae athrawon yn defnyddio eu profiad o ddiwydiant mewn ffordd ystyrlon i roi cyd-destunau sy'n benodol i ddiwydiant i theori a thasgau galwedigaethol. Caiff profiadau galwedigaethol eu hymestyn ymhellach trwy raglen ymweliadau rhyngwladol y coleg, gweithgareddau ymgysylltiad gan gyflogwyr, fel dosbarthiadau meistr, a chystadlaethau medrau cenedlaethol. Mewn dosbarthiadau peirianneg, mae dysgwyr mewn amgylcheddau rhaglennu cymhwysol yn dysgu medrau newydd trwy efelychu, ac wedyn yn cymhwyso'r medrau hyn gyda chymwysiadau gweithgynhyrchu datblygedig mwy cymhleth.

Mae gan y coleg resymeg glir ar gyfer cyflwyno medrau llythrennedd a rhifedd yn ganolog. Yn ystod y cyfnod tarfu presennol a achoswyd gan y pandemig, mae'r rhan fwyaf o wersi wedi cael eu cyflwyno ar-lein. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn dangos galluoedd digidol effeithiol yn eu sesiynau medrau ar-lein. Yn y sesiynau gorau, mae athrawon yn defnyddio ystod o dechnegau i ennyn diddordeb dysgwyr, er enghraifft trwy ddefnyddio ystafelloedd ymneilltuo, offer digidol ac amseryddion gweledol tra bydd dysgwyr yn gweithio ar dasgau annibynnol. Fodd bynnag, mewn llawer o sesiynau medrau ar-lein, mae ymgysylltu wedi'i gyfyngu i atebion i gwestiynau caeedig gan ddefnyddio'r cyfleuster sgwrsio. O ganlyniad, mae'r coleg wedi trefnu dosbarthiadau wyneb yn wyneb ychwanegol, sy'n dangos gwelliannau yn ymgysylltiad a chynnydd dysgwyr.

Mae llawer o athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o asesiadau cychwynnol dysgwyr i nodi eu mannau cychwyn mewn llythrennedd a rhifedd. Mae mwyafrif ohonynt yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr yn llwyddiannus o fewn eu dosbarthiadau galwedigaethol neu academaidd. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn datblygu medrau llythrennedd digidol dysgwyr yn fedrus yn eu pynciau galwedigaethol neu academaidd. O ganlyniad, mae dysgwyr yn dangos lefelau uchel o gymhwysedd gan ddefnyddio platfformau digidol i storio, cofnodi, trefnu ac olrhain eu dysgu eu hunain. Mae'r coleg wedi nodi lefelau medrau is mewn llythrennedd a rhifedd o ganlyniad i'r tarfu a achoswyd gan COVID-19, ac wedi defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru i roi cymorth ychwanegol priodol i ddysgwyr.

Mae llawer o athrawon yn defnyddio ystod o dechnegau holi yn dda i herio dealltwriaeth dysgwyr ac atgyfnerthu dysgu blaenorol. Yn yr achosion gorau, mae athrawon yn defnyddio holi'n effeithiol i ymestyn y dysgu. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, mae'r holi'n llai heriol, ac yn dibynnu ar gwestiynau caeedig sy'n cyfyngu ar y cynnydd mewn dysgu. Ar draws ychydig o gyrsiau, mae amrywioldeb yn lefel yr addysgu i herio dysgwyr i gyflawni eu llawn botensial. Mewn lleiafrif o gyrsiau galwedigaethol gyda gwersi ymarferol, mae athrawon yn annog dysgwyr i gynhyrchu gwaith i raddau uwch o gywirdeb.

Mae llawer o athrawon yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau asesu ffurfiannol i roi adborth i ddysgwyr sy'n ystyrlon ac yn eu cynorthwyo i ddatblygu eu dealltwriaeth. Er enghraifft, yn y cyfryngau creadigol, mae athrawon yn rhoi adborth unigol ar fideo sy'n helpu dysgwyr i ddeall sut i wella'u prosiectau terfynol. Mewn llawer o ddosbarthiadau Safon Uwch, mae athrawon yn rhoi sylwadau cryno buddiol ar waith dysgwyr i nodi meysydd i'w gwella. Dadansoddir olrhain cynnydd dysgwyr gan athrawon ar lefel pwnc, ac mae'n eu galluogi i nodi ble mae angen cymorth ychwanegol. Mewn ychydig o gyrsiau, fel cyfrifiadura Safon Uwch, mae platfformau digidol yn cysylltu adborth asesu â thargedau er mwyn i ddysgwyr ac athrawon allu olrhain cynnydd yn ddi-dor.

Mae gosod targedau yn broses ar y ddwy ochr, lle mae athrawon yn cynorthwyo dysgwyr i osod a chytuno ar dargedau mesuradwy sy'n cael eu diweddaru a'u monitro yn briodol gan ddefnyddio system ddigidol electronig deilwredig y coleg i osod targedau. Mae hyn yn cynorthwyo athrawon yn dda i lywio'r cynllunio ac asesu dysgu.

Mae'r coleg wedi rhoi cynllun "Sylfaenol, Gwell, Gorau" ar waith i gynorthwyo athrawon i ddatblygu eu medrau addysgu dwyieithog o'u mannau cychwyn ieithyddol unigol. Cynorthwyir athrawon yn dda trwy raglen cyfleoedd datblygiad proffesiynol, gan gynnwys raglen fentora genedlaethol Sgiliaith, ystod o ddigwyddiadau ar-lein sy'n cynnwys siaradwyr mewnol ac allanol fel ei gilydd, yn ogystal â chynllun Cymraeg Gwaith. O ganlyniad, mae dysgwyr a staff yn defnyddio'r Gymraeg mewn mwyafrif o wersi ac mae ychydig ohonynt yn gwneud defnydd cadarn o'r Gymraeg yn ystod gwersi dwyieithog. Er enghraifft, mae llawer o athrawon yn atgyfnerthu medrau Cymraeg trwy gynorthwyo dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg gyda ffrindiau a chyflogwr mewn sesiynau medrau byw yn annibynnol. Yn y sesiynau gorau, mae athrawon yn newid yn ddi-dor rhwng y Saesneg a'r Gymraeg, i dargedu gallu dysgwyr yn y Gymraeg, a rhoi adborth ysgrifenedig iddynt yn Gymraeg.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r coleg wedi ymgorffori ethos cadarnhaol yn llwyddiannus, wedi'i seilio ar werthoedd parch, undod a phroffesiynoldeb. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael cymorth trwy gydol eu cyfnod yn y coleg.

Mae'r coleg yn rhoi cyngor ac arweiniad perthnasol i ddysgwyr trwy gydol eu cyfnod yn y coleg. Mae staff yn darparu ystod o wybodaeth fuddiol, gan gynnwys ar gyfer y dysgwyr hynny nad oes ganddynt y graddau angenrheidiol i sicrhau lle ar gwrs, y rhai sydd eisiau mynd ymlaen i addysg uwch, y rhai sydd eisiau cyngor ar yrfaoedd a'r dysgwyr hynny sy'n bwriadu dechrau eu busnes eu hunain.

Mae gan y coleg broses bontio drylwyr ar gyfer dysgwyr newydd. I ymateb i heriau ymarferol a achoswyd gan y pandemig, gwnaeth staff newidiadau buddiol i'r broses hon, er enghraifft trwy gyflwyno gwefannau addysgiadol ar gyfer pontio ac ADY. Mae'r rhain yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr gael gwybodaeth bwysig i gefnogi eu cyfnod pontio i amgylchedd dysgu newydd. Mae'r coleg bellach yn cynnig mwy o weithgareddau pontio wyneb yn wyneb i ddysgwyr, gan gynnwys diwrnodau rhagflas, clybiau dydd Sadwrn a nosweithiau agored.

Mae'r tîm ADY wedi datblygu offeryn sgrinio buddiol y mae bron pob un o'r dysgwyr yn ei gwblhau yn ystod eu cyfnod ymsefydlu i'r coleg. Mae'r coleg yn casglu ystod o wybodaeth werthfawr am anghenion dysgwyr, er enghraifft rheoli amser, cof, canolbwyntio a threfnu, cyfathrebu a phrosesu synhwyraidd. Mae hyn yn golygu bod athrawon yn gallu mynd at gyfoeth o wybodaeth berthnasol a gwerth chweil sy'n eu cynorthwyo i ddiwallu anghenion dysgwyr yn dda.

Mae staff yn y coleg yn defnyddio systemau electronig i fonitro gwybodaeth bwysig am ddysgwyr, er enghraifft presenoldeb, lles, ymddygiad ac anghenion dysgu. Yn ddiweddar, ychwanegodd y coleg system electronig i gofnodi ac adrodd pryderon am ddiogelu. Mae arweinwyr yn gwerthuso effeithiolrwydd y systemau newydd hyn ar hyn o bryd.

Nododd y coleg gynnydd sylweddol yn yr angen am gymorth lles i ddysgwyr yn ystod y pandemig. Fe wnaethant gynyddu'r capasiti yn y cynnig lles presennol a datblygu ystod o ymyriadau gwerth chweil. Er enghraifft, cyflwynont linell gymorth, a oedd ar gael i ddysgwyr 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos. Hefyd, cyflwynodd tîm lles y coleg offeryn asesu gwerthfawr i frysbennu anghenion lles dysgwyr yn ogystal â gallu'r dysgwyr eu hunain i ddiwallu'r anghenion hyn. Darperir amrywiaeth o gymorth lles buddiol ar gyfer dysgwyr, yn cynnwys cwnsela, mentora a gweithdai. Caiff gweithdai eu cynllunio i ymateb i angen dysgwyr, er enghraifft gweithdai diweddar ar wella cwsg.

Mae'r coleg yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth trwy lawer o'i waith. Un enghraifft yw trwy gyflwyno 'gorsafoedd mislif', sy'n darparu amrywiaeth o gynhyrchion hylendid ym mhob un o'r toiledau i leihau effaith tlodi mislif. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o eitemau cynaliadwy ac aml-dro. Hefyd, mae'r coleg yn darparu toiledau niwtral o ran y rhywiau ar draws pob safle; mae lleiafrif o'r rhain wedi'u hadeiladu'n bwrpasol.

Mae'r coleg yn cryfhau ei waith i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw. Mae adnoddau gwerthfawr newydd, fel y gampfa ar gampws y Graig, yn cynnig cyfle i ddysgwyr wneud ymarfer corff. Yn Aberystwyth, mae'r coleg wedi darparu mynediad am ddim i gampfa prifysgol i ddysgwyr.

Mae'r tîm ADY yn gweithio'n effeithiol i ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY. Mae hyn wedi bod yn her yn ystod y pandemig oherwydd llawer o broblemau, yn cynnwys absenoldeb staff a dysgu ar-lein. Yn ogystal â'r heriau hyn, maent yn parhau i wneud newidiadau i arferion i ymateb i ddiwygiadau ADY. Mae arweinwyr yn defnyddio cysylltiadau gwerth chweil gyda phartneriaid i baratoi ar gyfer hyn, er enghraifft trwy gyflwyno adolygiadau arfer yn canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer yr holl ddysgwyr sydd â chynlluniau dysgu a medrau.

Yn ddiweddar, mae arweinwyr yn y coleg wedi gwneud newidiadau i'r prosesau monitro cynnydd a gosod targedau ar gyfer dysgwyr medrau byw yn annibynnol. Mae'r newidiadau hyn yn briodol ac yn canolbwyntio ar addasu dysgu i anghenion dysgwyr a'u cyrchfan yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae arweinwyr yn parhau i werthuso a chryfhau'r prosesau hyn, ac mae'n rhy gynnar i werthuso'u heffeithiolrwydd.

Mae gan y coleg raglen diwtorial gynhwysfawr, sy'n cwmpasu llawer o destunau pwysig fel diogelu, mis hanes pobl dduon ac ymwybyddiaeth o gyffuriau. Fodd bynnag, ni chaiff cynnwys sesiynau tiwtorial a'r ffordd o'u cyflwyno eu teilwra i ddiwallu ystod eang o anghenion a galluoedd yr holl ddysgwyr yn y coleg. O ganlyniad i hyn, nid yw effaith y sesiynau hyn wedi'i datblygu'n ddigonol ar hyn o bryd.

O ganlyniad i'r diwylliant diogelu yn y coleg, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo'n ddiogel, ac mae gan y rhan fwyaf o staff ddealltwriaeth dda o brosesau a gweithdrefnau diogelu yn y coleg. Mae gan y coleg weithdrefnau priodol ar gyfer diogelu. Mae'r polisi diogelu yn cynnwys ystod o wybodaeth fuddiol am destunau amrywiol fel cam-drin cyfoedion, hunanladdiad, hunan-niwed a hyfforddiant staff.

Mae gan y coleg systemau ar waith i gefnogi dealltwriaeth dysgwyr o ffyrdd pwysig i'w cadw eu hunain yn ddiogel. Fodd bynnag, nid yw effeithiolrwydd y systemau hyn i gefnogi dealltwriaeth dysgwyr o'r risgiau a achosir iddynt gan radicaleiddio wedi'i ddatblygu'n ddigonol. O ganlyniad, nid yw llawer o ddysgwyr yn dangos dealltwriaeth glir o gysyniadau eithafiaeth a radicaleiddio.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae uwch arweinwyr wedi datblygu gweledigaeth glir sy'n llywio blaenoriaethau strategol y coleg yn dda. Mae cynllun strategol y coleg yn nodi ymddygiadau a gwerthoedd allweddol, ac mae'r rhan fwyaf o staff yn deall pam y dylai'r rhain alluogi dysgwyr i lwyddo. Mae blaenoriaethau strategol yn llywio cynllun gweithredol y coleg yn briodol. Mae gan uwch arweinwyr ddealltwriaeth glir o risgiau a chamau lliniaru strategol presennol ac maent yn rhoi ystyriaeth briodol iddynt o fewn eu cynllunio. Mae bron pob un o'r arweinwyr, rheolwyr a staff yn rhannu lefel dda o ddealltwriaeth am sut gallant gyfrannu at nod y coleg i 'gyflwyno profiad ysbrydoledig i ddysgwyr'. Yn ystod cyfyngiadau'r pandemig, fe wnaeth yr ymrwymiad ar y cyd hwn, yn ogystal â gwella medrau staff yn effeithiol a chryfhau cyfleusterau digidol, helpu'r staff i ganolbwyntio ar sut orau y gallent gynorthwyo dysgwyr i wneud cynnydd yn eu haddysg.

Mae llywodraethwyr y coleg wedi ymrwymo'n gryf i wrando ar ddysgwyr. Mae'r bwrdd yn darparu cymorth da a lefel iach o her i uwch dîm arweinyddiaeth y coleg. Ceir cyfathrebu da iawn rhwng llywodraethwyr ac uwch arweinwyr a rheolwyr. At ei gilydd, mae llywodraethwyr yn wybodus iawn ac mae ystod eang eu harbenigedd yn cael ei ymestyn ymhellach ar hyn o bryd trwy ymarfer recriwtio. Yn ddiweddar, mae'r bwrdd wedi datblygu rolau llywodraethwyr cyswllt ar gyfer rheoli risg, diogelu a'r Gymraeg. Nod y bwrdd yw recriwtio llywodraethwr cyswllt i ganolbwyntio ar faes ADY. Mae llywodraethwyr wedi cael briffiad cychwynnol ynghylch newidiadau diweddar mewn deddfwriaeth yn ymwneud â dysgwyr ag ADY, ond mae eu dealltwriaeth o'u dyletswydd yn y maes hwn yn gyfyngedig.

Mae ei bartneriaethau cryf ag ysgolion lleol yn galluogi'r coleg i gynnig addysg alwedigaethol i lawer o ddisgyblion oedran ysgol, ac mae tua 60% ohonynt yn symud ymlaen i gyrsiau coleg amser llawn yn ddiweddarach. Cafwyd trafodaethau parhaus â cholegau eraill i ystyried sut gallant weithio gyda'i gilydd i ymateb yn effeithlon ac yn effeithiol i anghenion sy'n dod i'r amlwg o fewn y farchnad lafur, fel yr heriau staffio sy'n wynebu'r gwasanaeth iechyd. Mae'r coleg wedi gweithio'n agos gyda'i ddau awdurdod lleol i ddylanwadu ar gryfhau ystod ac ansawdd y ddarpariaeth ôl-16 yn yr ardaloedd hyn.

Mae cynllun ystâd y coleg yn cydnabod bod angen gwella rhai o'i adeiladau i ymestyn profiadau dysgwyr. Mae wedi gwella cyfleusterau cymdeithasol a chyfleusterau dysgu yn Aberteifi ac Aberystwyth, wedi gwneud gwaith adnewyddu targedig mewn ystafelloedd dosbarth ym Mhibwrlwyd, ac wedi datblygu ystafelloedd e-chwaraeon yn Llanelli a gardd medrau byw yn annibynnol yn Rhydaman. Nod cynlluniau uchelgeisiol pellach, yn unol â blaenoriaethau Grŵp Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, yw ailddatblygu'r ystâd o fewn ardal Caerfyrddin.

Mae'r coleg yn cydnabod effaith cyfyngiadau'r pandemig ar heriau sy'n wynebu dysgwyr ac yn rhoi ystyriaeth briodol i hyn mewn prosesau hunanwerthuso a gwella ansawdd. Mae arweinwyr ar bob lefel yn nodi cryfderau defnyddiol, ac mae'r mwyafrif ohonynt yn gosod targedau realistig ar gyfer gwella cynnydd mewn meysydd dysgu. Pan fydd yr effaith yn cael ei mesur, mae ffocws cryf ar gynnydd dysgwyr. Er enghraifft, trwy gynllunio gwelliant, mae ychydig o gampysau sydd wedi'i chael yn anodd yn hanesyddol i alluogi cyfrannau uchel o ddysgwyr i gwblhau eu cymwysterau yn llwyddiannus, wedi gwella'r cyfraddau llwyddo hyn yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf. Ar ôl dod yn is-gwmni a berchnogir yn gyfan gwbl gan y coleg yn 2017, mae cyfraddau llwyddo dysgwyr Coleg Ceredigion wedi gwella ac maent yn debyg i'r rhai yn safleoedd eraill y coleg erbyn hyn. Fodd bynnag, mae'r drefn o ran gwerthuso cynnydd mewn cynlluniau datblygu ansawdd yn amrywiol. Mewn lleiafrif o feysydd, ni chaiff effaith y camau gwella ei mesur yn ddigon da i lywio cynllunio yn y dyfodol yn y ffordd orau.

Mae'r coleg yn casglu ystod eang o ddata i gefnogi ei hunanwerthuso a chynllunio gwella ansawdd. Defnyddir y data hwn yn dda i nodi tueddiadau mewn addysgu a dysgu, a rhyngweithio â gwasanaethau cymorth i fesur a oes digon o ddarpariaeth i ddiwallu anghenion dysgwyr. Fodd bynnag, mewn rhai meysydd pwysig, mae rheolwyr yn colli cyfleoedd i ddadansoddi data i werthuso'n llawn effaith y camau gweithredu a'r mentrau.

Mae'r coleg wedi ymrwymo'n gryf i gynorthwyo staff i ddatblygu eu medrau, ac mae ei raglen datblygiad proffesiynol wedi'i hen sefydlu ac yn galluogi staff i ymchwilio a chreu 'diwylliant o chwilfrydedd'. Yn ystod cyfyngiadau'r pandemig, ymatebodd y coleg yn gyflym i staff cymorth i ddatblygu medrau digidol i barhau i gyflwyno dysgu. Yn ddiweddar, cryfhaodd y coleg ei dîm datblygiad proffesiynol sydd wedi datblygu ystod gynhwysfawr o lwybrau dysgu sy'n cyflwyno hyfforddiant teilwredig, wedi'i fentora, sy'n annog pob aelod o staff i gymryd rhan ynddo. Mae hyn yn cynnwys rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr ar gyfer llywodraethwyr newydd, a rhaglen ar gyfer staff addysgu i ddatblygu eu medrau rheoli.

Mae ymagwedd y coleg at ddatblygiad proffesiynol yn annog staff i fyfyrio ar eu cryfderau a'u medrau, a'u cofnodi, gan ddarparu fframwaith gwerthfawr i reolwyr

drafod arfer dda ac anghenion gwella, a rhoi dull clir i gydnabod y cynnydd a wna staff. Gall staff naill ai ddewis i'w perfformiad gael ei werthuso trwy arsylwadau ffurfiol neu gefnogi datblygiad ei gilydd mewn grwpiau bach.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i ddysgwyr, ac yn ystyried barn athrawon, staff cymorth a'r corff llywodraethol, lle bo'n briodol, trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cyfarfod â'r pennaeth / prif weithredwr, llywodraethwyr, uwch reolwyr a rheolwyr canol ac athrawon unigol, hyfforddwyr a staff cymorth i werthuso effaith gwaith y darparwr
- yn cyfarfod â dysgwyr i drafod eu gwaith, gwrando arnynt a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu darparwr
- yn ymweld â sampl eang o sesiynau, gan gynnwys gweithgareddau ystafell ddosbarth a gweithdy ar draws y ddarpariaeth, lle bo'n briodol
- yn arsylwi dysgwyr, ac yn siarad â nhw y tu allan i sesiynau
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r darparwr
- yn ystyried cynllun gwella ansawdd y darparwr ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r darparwr wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r darparwr, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd dysgwyr, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu dysgwyr, a chofnodion hyfforddiant a dysgu proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, cymedroli a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y darparwr ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 22/08/2022